

## “Colli dim”

---

*“Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer, medd yr Arglwydd ...” (adn. 11)*

### **Beth am ddarllen Jeremeia 29:1–14 ac yna myfyrio**

Un o'r pethau mwyaf cyffrous y dois i ar eu traws ar fy siwrne trwy'r bywyd Cristnogol yw'r syniad bod stori ddwyfol yn cael ei sgwennu ym mywyd pob crediniwr. Trwy holl ddigwyddiadau dirifedi ein bywydau mae llaw sy'n ein harwain, gan gymryd deunydd crai bywyd a llunio stori ohono ac, er ei bod wedi ei chuddio oddi wrthym ar hyn o bryd, a fydd, pan gawn ni olwg arni o safbwynt tragwyddoldeb, yn ein synnu ni.

Dros y ddeufis nesaf rwy'n gobeithio eich helpu i sylweddoli, os ydych yn grediniwr, nad cyfres o ddigwyddiadau hap a damwain ydy eich bywyd chi, ond naratif. Mae gan Dduw y gallu i gymryd popeth sy'n digwydd inni gan wneud stori ohono – stori sydd yn cydlynu, ac sydd â phwrpas iddi hi ac yn ffitio i mewn i'r stori fwy o lawer y mae ef yn ei hadrodd. Mae gan stori ddechrau, canol a diwedd. Mae popeth ynddi i bwrpas. Does dim sy'n amherthnasol.

Dywed yr awdur Thornton Wilder y dylem ddeall ein bywydau fel tirlun mawr sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae llygad ein profiad ni yn gallu ei weld. “Pwy a wŷr,” meddai ef, “sut y gall un profiad sydd mor wrthun inni osod cyfres o ddigwyddiadau ar waith a fydd yn bendithio cenedlaethau'r dyfodol?” Dyma'r meddwl sydd yn rhaid iddo gael gafael arnom ni wrth inni ddechrau ein myfyrdodau: y tu ôl i'r digwyddiadau yn ein bywyd sy'n ymddangos yn gwbl ddi-drefn, y mae yna stori fwy, stori *ddwyfol*, yn cael ei sgwennu. Fe ddisgrifiwyd awdur fel “un sydd yn colli dim”. Gallaf eich sicrhau nad ydy'r Awdur Dwyfol yn colli dim. Fe ddywedwyd am un oedd yn sgwennu storïau byrion y gallai hwnnw wneud stori allan o restr siopa. Gall Duw wneud yn anhraethol well na hynny: gall ef wneud stori allan o unrhyw beth.

### **Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**

Gen. 45:4–8; 50:20;

Esth. 2:1–10; 2:15–18; 4:5–16; 7:1–3

### **Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**

1. Sut oedd Joseff yn gweld stori ei fywyd?
2. Pa ddefnydd wnaeth Esther o'r newid byd a ddaeth iddi?

### **Gweddi**

Dad, wnei di yrru'r gwirionedd nad oes yna ddim yn cael ei gollu yn fy mywyd, yn ddwfn i mewn i'm hysbryd. Mae popeth sy'n digwydd imi – da, drwg, a chyffredin – yn cael ei ddefnyddio i ffurfio stori. Rwyt ti'n newid popeth i fod yn llawn ystyr. Rydw i mor ddiolchgar. Amen.